

ADRODDIAD
BLYNYDDOL Y
LLYWODRAETHWYR
I'R RHINI 2020-21

Ysgol y Dderwen



**Ysgol Gynradd Benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed
Heol Spurrell, Caerfyrddin. SA31 1TG
Rhif Ffôn: 01267 235598**

E-bost: admin@ydderwen.ysgolccc.org.uk
Gwefan: www.ysgolydderwen.cymru

Pennaeth:
Mr. Dylan Evans

Cadeirydd y Corff
Llywodraethol:

Dr. Ioan Matthews

Gair o gadair y Cadeirydd

Ar ddiwedd blwyddyn heriol arall mae'n bleser cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i'ch sylw. Ar ran y corff llywodraethol hoffwn ddiolch yn y lle cyntaf i'r disgyblion, ac i chi fel rhieni, am ymateb mewn ffordd mor adeiladol a phositif i gyfnod na ellid wedi ei ragweld ddwy flynedd yn ôl. Mae eich cefnogaeth i'r fîm rheoli, yr athrawon a'r staff cefnogi wedi bod yn ardderchog ac wedi ei werthfawrogi'n fawr gydol y cyfnod.

Hyderaf y byddwch hefyd am ymuno â mi i gyfleu ein diolch i Mr Dylan Evans a'r staff am eu harweiniad yn ystod y flwyddyn, pan welwyd yr athrawon yn addasu ac arloesi er mwyn cynnal profiadau addysgol y disgyblion drwy ddulliau rhithiol yn ystod y cyfnod clo ac mae'n siŵr y bydd rhai arferion newydd yn parhau i'r dyfodol. Yr ydym hefyd yn ymwybodol iawn fod y staff, yn ogystal a chefnogi disgyblion yn eu cartrefi yn ystod y cyfnodau clo wedi bod yn cynnal darpariaeth yn yr ysgol i blant gweithwyr allweddol. Gobeithio y bydd profiadau'r deunaw mis diwethaf wedi ein hatgoffa o'r newydd am bwysigrwydd cyfraniad y gweithlu addysg i'n cymunedau yn gyffredinol.

Parhâd ...Tud 2.



Yma'n yr haul mae 'na wres – mae hen nerth
Yma nawr ym mynwes
Yr haf, am i'r manaf mes
Ddihuno ym mhridd hanes.

Tudur Dylan Jones

Gair o gadair y Cadeirydd...

Ym mis Gorffennaf penderfynodd Mrs Elaine Edwards ymddeol wedi dros ugain mlynedd yn Ysgol y Dderwen, gan gynnwys nifer o flynyddoedd fel Pennaeth Cynorthwyol. Mae cyswllt Elaine gyda'r Ysgol yn ymestyn yn ôl i'w chyfnod fel disgybl yn yr hen adeiladau y bydd rhai ohonom yn eu cofio! Diolchwn i Elaine am ei gwasanaeth amrisiadwy a'i chefnogaeth arbennig i sawl cenedlaeth o ddisgyblion y Dderwen.

Yna ar drothwy blwyddyn newydd daeth y newydd ysgytwol am farwolaeth Mrs Siân Axford, aelod annwyl ac ymroddedig o staff yr ysgol ers yn agos i ugain mlynedd. Roedd y gynulleidfa niferus a ddaeth ynghyd yng Nghapel y Priordy (y tu mewn a'r tu allan) ar ddydd ei hangladd yn dystiolaeth o deimladau'r gymuned ehangach yng Nghaerfyrddin tuag ati. Cydymdeimlwn a'r teulu a'i chydweithwyr yn eu colled a diolchwn am y cyfle i adnabod Siân, a wnaeth gymaint dros y blynyddoedd i wneud Ysgol y Dderwen yn lle mor arbennig.

I gloi, dyma obeithio y bydd y flwyddyn nesaf yn cynnig cyfle i'r Ysgol ail afael mewn mwy o weithgareddau a chyfleoedd wrth i ni symud ymlaen, gobeithio, o brofiadau anodd y deunaw mis diwethaf.

Dr Ioan Matthews



Aelodau Corff Llywodraethwyr Ysgol y Dderwen

Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol gan eithrio'r Pennaeth yn gwasanaethu am 4 blynedd.

Enw	Cynrychioli
Mr. D.W Evans	Pennaeth
Mrs.C. Morgans	Rhieni
Mr. A. Charles	Cymuned
Mrs. L. Thomas	Cymuned
Parch. Beti Wyn James	Cymuned
Parch.T.Defis	A.A.Ll
Dr. G. Schiavone	A.A.Ll
Cyng. P.H. Griffiths	A.A.Ll
Cyng. E. Schiavone	A.A.Ll
Dr.I. Matthews (cadeirydd)	Cymuned
Mr. A. Davies	Rhieni
Mr. M. Jones	Rhieni
Mr. R. Davies	Rhieni
Mrs. H. Davies	Rhieni
Mrs. Ll. Dyfri-Jones	Athrawon
Mrs. E. Edwards	Athrawon
Mr. G.V. Jenkins	Staff

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu trawsdoriad y gymuned leol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd.

Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisiâu'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes. Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod gan y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati.

Ethol cynrychiolwyr y rhieni yn llywodraethwyr:

Weithiau bydd angen ethol rhieni i'r Corff Llywodraethol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y broses yma y tro nesaf bydd angen ethol rhieni.

Sut ydw i'n cysylltu â'r Corff Llywodraethol?

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, gallwch ysgrifennu at y Cadeirydd naill ai drwy lythyr neu e-bost drwy swyddfa'r ysgol. Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur.

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol bellach i'r rhieni, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod y flwyddyn, a hynny drwy roi deiseb i fewn gyda 10% o'r rhieni a fynacha yr ysgol yn arwyddo'r ddeiseb, a nodi pam maent eisiau galw cyfarfod.

Costau'r Corff Llywodraethu

Ni hawliwyd costau unigol gan unrhyw lywodraethwr.

Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2020/21

Staff yr Ysgol

Mr Dylan Wyn Evans- Pennaeth

Mrs Llio Dyfri Jones, Mrs Elaine Edwards - Penaethiaid cynorthwyol

Cyfnod Sylfaen

Athrawon

Mrs Heledd Mathias -Athrawes Uned Dan 5

Mrs Kiri Thomas - Athrawes Uned Dan 5

Mrs Llio Dyfri Jones-Athrawes Uned Dan 5

Miss Catrin E Jones – Athrawes BI 1 a 2

Mrs Angharad Williams– Athrawes BI 1 a 2 -CADY

Miss Lisa Ferraro – Athrawes BI 1 a 2

Mrs Nia Davies-Athrawes CPA

Cynorthwyr Cyfnod Sylfaen

Mrs Angharad Thomas

Mrs Jasmine Taylor

Mrs Andrea Thomas

Miss Natalie Lewis

Mrs Mary Pugh

Mrs Anne Marie Thomas

Mrs Sophie Oeppen (cynorthwy-ydd 1:1)

Miss Ffion Morris

Mrs Sioned Jones

Mrs Helen Wills

Miss Lowri James

Cyfnod Allweddol 2

Athrawon

Mrs. Wendy Davies – Athrawes BI. 3 a 4

Miss Hedydd Wilson – Athrawes BI 3 a 4

Mrs. Siân Axford -Athrawes BI.3 a 4

Mrs Catrin Jones –Athrawes BI 5 a 6

Mr Marc Tiplady – Athro BI 5 a 6

Mrs Elaine Edwards– Athrawes BI 5 a 6

Mr Hedd Tudur – Athro CPA

Cynorthwyr Cyfnod Allweddol 2

Mrs Gemma Humble Mrs Bethan Morgan Miss Meleri Owen

Miss Meryl Jones (cynorthwy-ydd 1:1)

Miss Leah Evans (cynorthwy-ydd 1:1)

Mrs Michelle Jenkins (cynorthwy-ydd 1:1)

Gweinyddol

Mrs Anwen Davies – Ysgrifenyddes

Mrs Gaynor Lewis - Swyddog Rhyll

Mr Vivian Jenkins – Gofalwr

Staff y Gegin a Glanhawyr

Katie Pierce

Debbie Rice

Aimee Hall

Jeanette Pointon

Hazel Davies

Ann Davies

Mandy Elsdon

Gloria Thomas

Datganiad o Genhadaeth yr ysgol yw:

O'r fesen, derwen a dyf

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial.

Polisi Iaith yr Ysgol

Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol hon. Cymraeg yw unig gyfrwng y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym mlwyddyn 3. Yn unol â pholisi dwyieithog yr Awdurdod Addysg, darperir adnoddau dysgu safonol i sicrhau bod disgyblion yn medru cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Yn unol â pholisi'r ysgol, rhoddir sylw priodol i ddisgyblion sy'n tangyflawni. Gwneir hyn naill ai drwy ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth drwy eu haddysgu yn unigol neu

mewn grwpiau bychain. Manteisir ar gymorth yr athrawes gynnal a/neu drwy gynhaliath y gynorthwywraig gynnal. Gwneir defnydd o wasanaeth arbenigwyr allanol pan fo hynny'n briodol.

Mrs Angharad Williams yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol.

Cynllun Hygyrchedd:

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd priodol a gwneir unrhyw addasiadau i'r dulliau o gyflwyno'r cwricwlwm yn ôl y galw.

Iechyd a Diogelwch/Tir ac Adeiladau:

Cynhalwyd Awdit Iechyd a Diogelwch ddiwedd Gwanwyn 2019 gyda'r adroddiad yn canmol y safonau uchel ar draws yr ysgol. Cedwir golwg cyson ar gyflwr y tir a'r adeiladau, gan wneud unrhyw drwsidatau addas pan fo angen. Mae gan yr ysgol gytundeb gan y Sir ar gyfer glanhau'r ysgol. Mae holl gyfleusterau'r ysgol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â chytundeb lefel gwasanaeth y Sir.

Blwyddyn Ysgol 2021-22

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Diwedd	
Hydref 2021	Mercher 2 Medi 2021	Llun 25 Hydref 2021	Gwener 29 Hydref 2021	Mawrth 21 Rhagfyr 2021
Gwanwyn 2022	Llun 4 Ionawr 2022	Llun 21 Chwefror 2022	Gwener 25 Chwefror 2022	Gwener 8 Ebrill 2022
Haf 2022	Llun 25 Ebrill 2022	Llun 30 Mai 2022	Gwener 3 Mehefin 2022	Gwener 19 Gorffennaf 2022

HMS Penodol: 1 Medi 2021, 18+19 Gorffennaf 2022

Presenoldeb a Phrydlondeb: 94% hyd at ddiwedd Gorffennaf 2021

Targedau Presenoldeb 2021/22 : 96.5%

Er bod canran o absenoldebau anawdurdodedig yn parhau'n fechan, dilynir i fyny ar bob achos er mwyn cynnal y safonau. Mae prydlondeb disgyblion yn dda ar y cyfan, ac wedi gwella ers cyflwyno'r gofrestr disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr.



Cwricwlwm ac Aseu

Mae pedwar diben wrth wraidd cwricwlwm Ysgol y Dderwen; sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod:

- yn **ddysgwyr uchelgeisiol**, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r holl athrawon a'r cynorthwy-wyr i'w canmol am safon y darpariaeth a gynigir i ddisgyblion Y Dderwen. Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Rydym yn tracio cynnydd disgyblion gan ddefnyddio ystod o strategaethau. Mynychodd sawl un gyrsiau ar ddatblygiadau'r cwricwlwm yn ystod y flwyddyn.

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial. Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh a phwysleisir pwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac yn ystyrion i'r plentyn.

Mae'n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o'i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a'i fyd.

Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi selio ar themau, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm. Mae'r profiadau addysgiadol i ni'n cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein plant, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg)
- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol)

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg a'r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn.

Y mae gan yr ysgol hefyd bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle.

Targedau'r Cynllun Datblygu Ysgol/ Cynllun Gweithredu:-

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithiol, sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhelliad a wnaed gan Estyn ynghyd â gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â dadansoddiad o ddata canlyniadau diwedd cyfnod allweddol. Mae aelodau'r corff Llywodraethol wedi derbyn cyfrifoldeb am fonitro'r cynllun hunan-arfarnu a chânt gyfle cyson i adrodd ar y datblygiad mewn cyfarfodydd. Mae'r targedau'n cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

Prif Flaenoriaethau 2020/21

- Lliniaru Risgiau COVID-19
- Dilyn Gweithdrefnau Gweithredol Llywodraeth Cymru
- Darparu Cwricwlwm a chefnogaeth fugeiliol

>Cefnogaeth lles, meddwlgarwch, meddylfryd Twf

>Codi Safonau Sgiliau Sylfaenol llythrennedd a rhifedd

>Datblygu Dysgwyr Annibynnol

>Dysgu yn yr awyr agored

- Aseu ac atebolrwydd

>Cynnal asesiadau er mwyn sefydlu gwaelodlin i fesur cynnydd

- Cynlluniau wrth-gefn petai achosion/cyfyngiadau pellach >Dulliau cefnogi dysgu o bell/Dysgu Cyfunol

Prif Flaenoriaethau 2021/22

- Gwella cymhwysiad medrau allweddol er mwyn codi safonau sylfaenol llythrennedd a rhifedd
- Gwella darpariaeth ADY ymhellach i ddiwallu anghenion pob disgybl.
- Addysgeg a Phedagogeg Cwricwlwm i Gymru.
- Gwella sgiliau arwain ar bob lefel trwy ymchwil i ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Oriau'r Ysgol (2020-dros dro)

Cyrraedd

8:45 – Bl.1, 2, 3, 4

12.50- Plant Meithrin Prynhawn

Cinio

11.30-1.30

Casglu

11.50- Casglu Meithrin Bore

3.00:Meithrin a Derbyn

3.15: Bl.3 a 4, 1 a 2

3.30: Bl.5 a 6

Polisi Amddiffyn Plant:

Mae gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yw Mr Dylan Wyn Evans a Mrs Llio Dyfri Jones a Mrs Elaine Edwards. Mae gan aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethol hefyd gyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'n dyled yn fawr eleni eto i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion diflino wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian tuag at anghenion yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r gymdeithas hefyd yn cyfrannu at ein biliau llungopio ac yn ariannu parti Nadolig y disgyblion a chost bysys i Langrannog a Phentywyn yn flynyddol. Gwerthfawrogir eu hymdrechion yn fawr. Uchafbwynt eleni oedd Taith Gerdded Arfordir Sir Gâr. Gyda dros 300 o unigolion yn cymryd rhan. Cerddwyd 64 milltir dros y penwythnos.

Safonau a Pherfformiad 2020/21

Cyffredinol:

- Presenoldeb: parhau yn gyson dros 95%
- Fframwaith Cefnogaeth Her ac Ymyrraeth: mae'r ysgol yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion yr AALL.
- Perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim; gan fod y canran mor isel (tua 4%) mae'n anodd gwneud datganiad ystyrlon ynglŷn â'r patrwm.
- Disgyblion ADY: Mae disgyblion ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn y ddau gyfnod allweddol
- Cymhariaeth rhwng perfformiad bechgyn/merched: Does dim patrwm amlwg o wahaniaeth dros y cyfnodau.

Hyfforddiant Mewn Swydd

Cafwyd amrywiaeth o wahanol sesiynau hyfforddiant mewn swydd er mwyn sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ynghyd â

diwallu anghenion unigol y staff.

Adolygiadiadau i Brospectws a Pholisiau'r Ysgol


Mae holl bolisiau'r ysgol yn gyfredol, ac fe adolygir pob polisi yn ôl y gofyn gan y Corff Llywodraethol. Diweddarwyd prospectws yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

Bwyta ac yfed yn iach

Mae'r ysgol yn ceisio'n galed i hybu ffordd iach o fyw ac mae'r polisi Bwyd a Ffitrwydd yn adlewyrchu hyn. Mae'r ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth ac yn cyrraedd safonau cynllun Ysgolion Iach y Sir.

Trefniadau a chyfleusterau toiled

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg.





CYFLAWNIAD ARIANNOL 2020/21

DYRANIAD FFORMWLA
2020/21:

£ 1,281,347

DIFFYG Ariannol a
Ddygwyd Ymlaen:

Diffyg £24,245

CYFANSWM AR GAEL:

£1,257,102

GWARIANT NET 2020/21:

£1,224,835

GWAHANIAETH-arian
wrth gefn yn cario
drosodd i 2021/22:

£32,267

Profiadau ym maes chwaraeon

Yn gyffredinol prif nodau dysgu Addysg Gorfforol yw annog a helpu pob plentyn i fyw bywyd iachus a bywiog, ac i hyrwyddo datblygiad priodweddau dymuno megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad, gorchest a hunan hyder. Ceisia'r staff gyflawni'r nodau yma trwy gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i blant o bob oedran, tu fewn a thu allan i'r cwricwlwm ffurfiol, gan eu herio i ddatblygu a gwella'u perfformiad unigol. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys Athletau, Gêmau, Rygbi, Pêl Droed, Criced, Pêl Rwyd, Tennis a Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur.

Ymweliadau Addysgiadol

Yn anffodus roedd amgylchiadau COVID wedi effeithio tipyn ar drefniadau'r ysgol wrth gynnal ymweliadau addysgiadol eleni. Teimlwn yn gryf fod disgyblion yn elwa yn fawr o gymryd rhan yn yr ymweliadau amrywiol a drefnir gennym i brofi profiadau newydd sydd yn ehangu eu haddysg yn gyffredinol. Gall ymweliadau addysgol gyfrannu at ddyfnhau'r dysgu yn ogystal â datblygu sgiliau personol a chymdeithasol amrwyiol a gwerthfawr. Trwy ymweliadau cyflwynwn brofiadau uniongyrchol sy'n ennyn diddordeb a dealltwriaeth o'r amgylchfyd gan atgyfnerthu'r dysgu.

Rhown bwys ar sicrhau fod pwrpas a gwerth i'r ymweliadau, bod caniatad rheini ac asesiadau risg priodol mewn lle cyn cychwyn ar yr ymweliad.

Dymuna'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth cyson.